**Dyddiad:** Dydd Iau 11 Mai

**Amser:** 2pm – 4pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2

**Teitl:** COFRESTR BUDDIANNAU'R AELODAU – DIWEDDARIAD O ADRODDIAD AR GYFER AELODAU'R PWYLLGOR AR SAFONAU YMDDYGIAD

**Pwrpas**

1. Darparu diweddariad ar y Gofrestr

**Gweithredu**

2. Dim; er gwybodaeth yn unig.

**Diweddariad**

3. Ym mis Chwefror eleni, cyhoeddwyd trydydd adroddiad chwarterol Cofrestr Buddiannau'r aelodau. Achoswyd nifer o gofnodion newydd ar y gofrestr gan letygarwch a estynnwyd yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd a hefyd gan Aelodau'n datgan nawdd ar gyfer eu costau etholiadol.
4. Ers cyhoeddi'r adroddiad, ychydig o ymholiadau sydd wedi bod gan y Wasg. Fodd bynnag, mae diddordeb y cyhoedd yn y Gofrestr wedi cynyddu ac mae aelodau o'r cyhoedd, drwy apwyntiad, wedi archwilio'r Gofrestr.

**Nawdd Ariannol**

5. Cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf nad oedd cymorth ariannol a ddarperid gan blaid wleidyddol yn nawdd ac, felly, nad oedd angen ei gofrestru fel costau etholiadol neu gymorth parhaus. Mae'n amlwg, fodd bynnag, fod Aelodau'n dal i gofrestru eu costau etholiadol fel nawdd lle y cafodd y costau hyn eu talu gan eu plaid wleidyddol.
6. Rhyddhawyd cyfarwyddyd ychwanegol ar Nawdd Ariannol, Datgan Buddiannau a Phleidleisio i'r holl Aelodau ar 11 Ebrill 2000.

**Cyhoeddi'r Gofrestr**

7. Rydym, erbyn hyn, wedi cyhoeddi'r tri adroddiad chwarterol cyntaf ar Gofrestr Buddiannau'r Aelodau ac rydym, felly, ar fin cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol cyntaf.

Rhyddheir yr Adroddiad Blynyddol drafft i’r Aelodau am eu sylwadau cyn ei gyhoeddi.

**Y Swyddfa Gyflwyno**

**Mai 1999**